
Cefnogi y sector anllywodraetol amgylcheddol yng



Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnig grantiau o rhwng £5,000 -£100,000 i dalu am hyfforddiant sgiliau busnes i gyrff anllywodraetol amgylcheddol.

Lansiwyd y Cynllun Capasiti yr Adferiad Gwyrdd gan y Gweinidog Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths ar ddydd Llun 23 Tachwedd.

Meddai Andrew White, cyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:
“Rydym yn ddiolchgar iawn i fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu y Cynllun Capasiti yr Adferiad Gwyrdd i gefnogi cyrff anllywodraetol amgylcheddol Cymru yn ystod yr amer heriol hwn.

“Mi fydd y gronfa hon yn cefnogi y cyrff rhain i adeiladu eu gwytnwch trwy dderbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau busnes – megis llywodraethu, gwytnwch ariannol a rheoli prosiectau i’w caniatau i ffynnu a darparu gwasanaethau gwell i’w cwsmeriaid.”



Beth fyddwn yn ei ariannu

Drwy'r Cynllun Capasiti yr Adferiad Gwyrdd rydym am:

- roi cymorth i sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol gynyddu capasiti drwy lywodraethu cryfach, cydnerthedd ariannol, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu prosiectau a sgiliau perthnasol eraill
- rhoi sefydliad anllywodraethol amgylcheddol - yn enwedig sefydliadau llai - ar sail fwy cynaliadwy drwy gefnogi datblygiad prosiectau o ansawdd uwch
- gwella cyrhaeddiad sefydliad anllywodraethol amgylcheddol i gymunedau heb gynrychiolaeth eang (lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl anabl, ardaloedd amddifadedd, ac ati)

Pwy sydd yn gymwys

- Mae'r gronfa'n agored i sefydliadau amgylcheddol sy'n elusennau neu'n bartneriaethau cofrestredig sy'n cael eu harwain gan sefydliad anllywodraethol amgylcheddol.
- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru a datblygu prosiectau yng Nghymru.
- Rhaid i brif nodau'r sefydliad, neu amcanion elusennol, ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol.
- Dim ond un cais y byddwn yn ei dderbyn fesul sefydliad neu bartneriaeth.
- Byddwn yn derbyn ceisiadau am gyllid refeniw tan 31 Gorffennaf 2021. Gallwch wneud cais am hyd at 100% o'r cyllid.



Credit: Barry Stewart

Sut i ymgeisio

Rydym yn derbyn **Ffurflenni Ymholiad Prosiect** rhwng **16 Tachwedd** a **6 Rhagfyr** neu gallwch fwrw ymlaen a gwneud cais. Rydym yn derbyn ceisiadau tan **10 Ionawr 2021.**

Ceisiadau ar agor ar **23 Tachwedd** ac yn cau ar **10 Ionawr 2021**.

Mae cyngor cyn ymgeisio ar gael drwy e-bost - cysylltwch â: natur@heritagefund.org.uk

Darllenwch yn meini prawf a'r canllawiau cyn gwneud cais trwy ein porth os y gwelwch yn dda.



efyd mewn ...



amgylcheddol mewn cymunedau yng Nghymru



r businesses

Siarad o amgylch y tân yng Nghlynfyw

Grantiau cymunedol yn rhoi hwb i lesiant ledled Cymru